# Gyrfaoedd mewn technoleg ddeintyddol glinigol



Gall technegwyr deintyddol clinigol greu'r holl offer y gall technegydd deintyddol eu gwneud, ond gallant hefyd drin rhai cleifion.

## Beth mae technegwyr deintyddol clinigol yn ei wneud?

Mae technegwyr deintyddol clinigol yn gallu cyflawni gwaith labordy technegydd deintyddol i greu offer deintyddol, yn amrywio o goronau i offer orthodonteg a phrosthesis ar gyfer claf sy'n cael adluniad wyneb yn dilyn canser y pen a'r gwddf.

Yn ogystal â'u gwaith labordy, mae ganddynt hefyd y gallu i drin yn uniongyrchol rai cleifion nad oes ganddynt ddannedd ac y mae angen set lawn o ddannedd ffug (dannedd gosod) arnynt heb fod angen iddynt fynd at y deintydd.

## Ble mae technegwyr deintyddol clinigol yn gweithio?

- mewn addysgu arbenigol neu ysbytai lleol yn y GIG
- o fewn y sector masnachol naill ai mewn labordai deintyddol preifat neu drwy fod yn hunangyflogedig
- mewn addysg yn addysgu'r genhedlaeth nesaf o dechnegwyr yn y brifysgol.

## Pa sgiliau sydd eu hangen arnaf i fod yn dechnegydd deintyddol clinigol effeithiol?

- bydd angen i chi fod yn gydlynol, meddu ar ddeheurwydd llaw a sgiliau ymarferol da er mwyn cynhyrchu gwaith cywir
- meddu ar sgiliau cyfathrebu a sgiliau pobl dda, gydag agwedd dawel a chyfeillgar
- bod yn greadigol gyda diddordeb mewn dylunio a chynhyrchu
- rhoi sylw arbennig i fanylion
- y gallu i ddilyn cyfarwyddiadau a dehongli gwybodaeth a data technegol
- gallu canolbwyntio am gyfnodau hir o amser
- sgiliau TG da
- gallu gweithio ar eich pen eich hun ac fel rhan o dîm.

## Sut mae dod yn dechnegydd deintyddol clinigol?

I ddod yn dechnegydd deintyddol clinigol cofrestredig gyda'r cyngor deintyddol cyffredinol (GDC) mae cyfle i ymgymryd â hyfforddiant pellach trwy astodio am ddiploma ar ôl cymhwyso fel technegydd deintyddol. I ddod yn dechnegydd deintyddol mae angen i chi naill ai fod wedi gwneud gradd, BSc (Anrh) mewn technoleg ddeintyddol - mae hyn ar gael ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd - neu ddilyn llwybr arall trwy astudiaeth ran-amser neu ddiploma. Fel arall, efallai y bydd cyfleoedd y tu allan i Gymru i astudio cwrs gradd mewn BSc (Anrh) mewn technoleg ddeintyddol glinigol.

**Eisiau darganfod mwy?**

**Tregyrfa:** https://careersville.heiw.wales/cy

**Gyrfaoedd GIG Cymru:** http://www.gyrfaoeddgigcymru.com/